Coleg Gwent

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# IMI Diploma in Light Vehicle Maintenance and Repair Level 1



## Yn gryno

Mae’r cwrs hwn yn ymdrin â thrwsio a gwasanaethu ceir a cherbydau ysgafn a phob agwedd ar drwsio a chynnal a chadw, yn cynnwys gwaith trydanol ac electronig a defnyddio TG.

## Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb ysol mewn cerbydau

... Ydych yn mwynhau datrys problemau

... Ydych yn dymuno symud yn eich blaen at brentisiaeth neu ddysgu pellach

## Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae’r cwrs yn cynnig cyfle i ddilyn Prentisiaeth mewn garejis annibynnol bach a delwriaethau mawr.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn dysgu trwy gyfrwng y canlynol:

Arddangosiadau ymarferol
Tasgau gwaith realistig
Darlithoedd i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol
Aseiniadau

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng amgylcheddau gwaith realistig, asesiadau ymarferol ac aseiniadau ysgrifenedig. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Lefel 1 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ddilyn y cwrs hwn, byddwch angen fan leiaf 4 TGAU, Gradd G neu uwch, yn cynnwys Mathemateg/Mathemateg Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, a hefyd mae'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm yn ofynnol. Dylech fod â dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant cerbydau modur, dylech gadw at ethos y coleg a dylech fod yn barod i wella eich lefel mewn pynciau academaidd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau, neu Brentisiaeth.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun.